

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Castell-nedd i Landarcy, Castell-
nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau
a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2024

The A465 Trunk Road (Neath to
Llandarcy, Neath Port Talbot)
(Temporary Traffic Prohibitions &
Restrictions) Order 2024

Gwnaed 25 Hydref 2024

Made 25 October 2024

Yn dod i rym 1 Tachwedd 2024

Coming into force 1 November 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4), (7) a 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4), (7) and 15(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Castell-nedd i Landarcy, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2024.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Neath to Llandarcy, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2024 and this Order comes into force on 1 November 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw—

Interpretation

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Tachwedd 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbyttffordd tua'r gorllewin neu gerbyttffordd tua'r dwyrain y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 13, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 1 November 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle on either the westbound or eastbound carriageways of the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

5.—(1) Whilst the movement of traffic is, by article 4, prohibited on the westbound carriageway but, pursuant to article 13, not prohibited on the eastbound carriageway, no person may drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway in any direction other than westwards.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyffordd tua'r dwyrain gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 13, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n pwyso mwy na 44 tonnell ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

12. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

13. Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 11, a 12 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Whilst the movement of traffic is, by article 4, prohibited on the eastbound carriageway but, pursuant to article 13, not prohibited on the westbound carriageway, no person may drive any vehicle in the offside lane of the westbound carriageway in any direction other than eastwards.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 2.9 metres on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any vehicle with a weight of or exceeding 44 tonnes on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

10. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

11. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

12. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

Application

13. The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 and 12 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Atal dros dro

14. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 8, 9 a 10 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

15. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol ag adran 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, y bydd yn cymryd mwy na 18 mis i orffen y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn. Caiff y Gorchymyn hwn ei ddirymu pan gaiff y gwaith ei gwblhau.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Hydref 2024

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes

Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd yr A465/A474 hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cyfnewidfa Llandarcy Cyffordd 43 yr M4/A465, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd a chilfan y gefnffordd sy'n gyfagos i gerbyttffordd tua'r gorllewin yr A465.

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cyfnewidfa Llandarcy Cyffordd 43 yr M4/A465 hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyfnewidfa Castell-nedd yr A465/A474.

ATODLEN 2

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi wrth drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd am bellter o tua 2.3 cilometr.

Suspension

14. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 8, 9 and 10 are in operation.

Duration of this Order

15. The Welsh Ministers are satisfied, in accordance with section 15(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, that the execution of works giving rise to this Order will take longer than 18 months. This Order will be revoked on completion of the works.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

25 October 2024

Nicci Hunter

Business Team Leader

Welsh Government

SCHEDULE 1

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at the A465/A474 Neath Interchange to its junction with the main circulatory carriageway of the M4 Junction 43/A465 Llandarcy Interchange, including the westbound entry slip road at Neath Interchange and the trunk road layby adjacent to the A465 westbound carriageway.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway of the M4 Junction 43/A465 Llandarcy Interchange to the nosing of the eastbound entry slip road at the A465/A474 Neath Interchange.

SCHEDULE 2

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the crossover point at the nosing of the westbound entry slip road at Neath Interchange for approximately 2.3 kilometres.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi wrth y gyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Llandarcy Cyffordd 43 yr M4/A465 am bellter o tua 2.3 cilometr.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the crossover point at the junction with the main circulatory carriageway of the M4 Junction 43/A465 Llandarcy Interchange for approximately 2.3 kilometres.